



CANLLAW  
ADDYSG UWCH

2020 - 22

# ER MWYN GRADDEDIGION

MAE CYMHWYSTER **LEFEL PRIFYSGOL**  
YN NES NAG Y MEDDYLIWCH



# ER MWYN

## PAWB

Sut brofiad, felly, yw astudio addysg uwch yn y coleg?

Darllenwch trwy'r arweiniad hwn i glywed beth sydd gan ein myfyrwyr presennol i'w ddweud. Ond, nid oes rhaid ichi dderbyn eu gair, dewch draw i un o'n digwyddiadau agored i weld drosoch eich hun. Cânt eu cynnal drwy gydol y flwyddyn, gyda rhai digwyddiadau penodol yn cael eu cynnal yn arbennig ar gyfer addysg uwch.

Mewn digwyddiadau agored a digwyddiadau gwybodaeth AU, gallwch wneud y canlynol:



Siarad â thiwtoriaid a dysgwyr Addysg Uwch eraill



Cael manylion am y cymorth ariannol sydd ar gael



Mynd am dro o gwmpas y campws a'r cyfleusterau

### Digwyddiadau Gwybodaeth Addysg Uwch

Dydd Mercher 9 Hydref 2019  
13:00 - 16:00

Dydd Iau 9 Ionawr 2020  
13:00 - 16:00

Dydd Mawrth 26 Tachwedd 2019  
13:00 - 16:00

Dydd Mawrth 25 Chwefror 2020  
13:00 - 16:00



Trefnwch le ar-lein a chychwynwch ar eich taith tuag at lwyddiant gyda ni heddiw [www.coleggwent.ac.uk/agored](http://www.coleggwent.ac.uk/agored)

Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)



# CYNNWYS

**04**

Er mwyn cael dewis

**15**

Allwedd ar gyfer manylion  
y cyrsiau a'n partneriaid

**24**

Iechyd a Gofal  
Cyhoeddus

**05**

5 rheswm dros astudio  
yng Ngholeg Gwent

**16**

Iechyd Ceffylau ac  
Anifeiliaid

**26**

Y Dyniaethau ac Addysg

**06**

Er mwyn graddedigion

**18**

Adeiladu a'r Amgylchedd  
Adeiledig

**28**

Gwyddoniaeth,  
Peirianeg a Thechnoleg

**08**

Eich cynorthwyo

**20**

Busnes, Rheoli a  
Thwristiaeth

**30**

Chwaraeon a  
Cwasanaethau  
Cyhoeddus

**10**

Canolbwyntio ar gyllid

**22**

Y Diwydiannau Creadigol

**32**

Ein Campysau

**14**

Sut i wneud cais am  
addysg uwch

## Digwyddiadau Agored Generig

Mae ein digwyddiadau agored generig yn ymdrin â chysiau llawn amser a rhan amser ond gallwch gael gwybodaeth am gymwysterau prifysgol yn y digwyddiadau hyn hefyd (yn enwedig os na allwch ddod i un o'n digwyddiadau gwybodaeth AU fel y manylir ar y dudalen ar y chwith).

Dydd Iau 7 Tachwedd 2019  
17:00 - 19:30

Dydd Mercher 29 Ebrill 2020  
17:00 - 19:30

Dydd Mercher 5 Chwefror 2020  
17:00 - 19:30

Dydd Mawrth 23 Mehefin 2020  
17:00 - 19:30

Dydd Sadwrn 21 Mawrth 2020  
10:00 - 13:00

# ER MWYN CAEL DEWIS

Mae Coleg Gwent yn bartner cydweithredol i Brifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Pearson.



University of  
South Wales  
Prifysgol  
De Cymru

1872 PRIFYSGOL  
**ABERYSTWYTH**  
UNIVERSITY

 University  
of Worcester

 Cardiff  
Metropolitan  
University

Prifysgol  
Metropolitan  
Caerdydd

  
Pearson

Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)



**5 RHESWM  
DROS  
ASTUDIO YNG  
NGHOLEG  
GWENT**

## Dewisiadau lu!

Gyda mwy na 40 o gyrsiau mewn Busnes, Gofal a Pheirianeg, a llawer mwy, gwaith hawdd fydd dod o hyd i'r cwrs perffaith i chi. Gallwch astudio'n llawn amser neu'n rhan amser er mwyn cyd-fynd ag ymrwymadau gwaith neu ymrwymadau eraill.



## Profiad prifysgol



Mae gennym bartneriaethau cryf gyda Phrifysgol De Cymru, Prifysgol Aberystwyth, Prifysgol Caerwrangon, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Pearson. Os llwyddwch i gwblhau cwrs a ddyfarnir gan un o'n partner-brifysgolion, golyga hyn y byddwch yn cael tystysgrif gan y brifysgol honno ac yn cael eich gwahodd i'w seremoni raddio.

## Rydym yn lleol

Rydym yn lleol, felly byddwch yn arbed arian ac amser ar deithio, a hefyd o ran llety, oherwydd ni fydd angen ichi symud o'ch cartref. Gallwch dreulio'r amser y byddwch yn ei arbed gyda'ch teulu, eich cyfeillion neu yn y gwaith.



## Profiad mewn gweithle

Fel arfer, mae ein cyrsiau'n ei gwneud yn ofynnol ichi gael profiad mewn gweithle yn ogystal ag astudio yn y coleg, felly cewch ennill sgiliau'n ymwneud yn benodol â'r diwydiant a phrofiad ymarferol y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt, gan roi mantais gystadleuol ichi dros eraill a chynyddu eich siawns o ddod o hyd i yrfa eich breuddwydion.



## Er mwyn llwyddo

Mae dros hanner ein dysgwr Addysg Uwch yn mynd ymlaen i 'ychwanegu' at eu cwrs yn y brifysgol berthnasol!



# ER MWYN GRADDEDIGION

Eich arweiniad  
i gymwysterau



Mae gwneud yn siŵr eich bod yn dilyn y cwrs iawn yn bwysig inni, oherwydd gall ddylanwadu ar eich cam nesaf a'ch dyfodol yn yr hirdymor. Dyma arweiniad hwylus i'r gwahanol gymwysterau yr ydym yn eu cynnig:

## Graddau Sylfaen

Mae Graddau Sylfaen yn cyfuno astudiaeth academiaidd â dysgu yn y gweithle/cysylltiedig â gwaith. Maent yn cyfateb yn fras i ddwy flynedd gyntaf Gradd. Cânt eu cynllunio gyda maes gwaith arbennig mewn golwg, gyda help sefydliadau o'r sector hwnnw, felly byddwch yn ennill y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Wedi i chi ennill Gradd Sylfaen, gallwch ddefnyddio eich cymhwyster a'ch profiad gwaith i ganfod cyflogaeth, neu wneud y dewis i 'godi' eich cymhwyster i Radd Baglor lawn. Mae hyn, fel arfer, yn golygu astudio am flwyddyn neu ddwy yn ychwanegol.

Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)





## Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch (HNCs) a Diplomâu Cenedlaethol Uwch (HNDs)

Cyrsiau cysylltiedig â'r gwaith yw HNCs a HNDs ac mae cyflogwyr yn y DU a dramor yn rhoi gwerth mawr arnynt. Thramor Graddau Baglor yn tueddu i ganolbwyntio ar ennill gwybodaeth, bwriad HNCs a HNDs yw rhoi ichi'r sgiliau i roi'r wybodaeth honno ar waith yn effeithiol mewn galwedigaeth arbennig.

Nid cymwysterau gwerthfawr ar gyfer gwaith yn unig yw Tystysgrifau Cenedlaethol Uwch. Mae rhai HNCs yn caniatáu ichi gael mynediad uniongyrchol at ail flwyddyn rhaglen gradd, ac mae nifer o HNDs yn caniatáu ichi gael mynediad uniongyrchol at drydedd flwyddyn Gradd. Hefyd, gall HNCs neu HNDs roi mynediad ichi at nifer o gyrff proffesiynol. Felly, pa un a ydych eisiau camu'n syth i swydd neu barhau â'ch astudiaethau, gall ennill cymhwyster Cenedlaethol Uwch fod yn fan cychwyn gywch.

## Cymwysterau proffesiynol

Mae cymwysterau proffesiynol yn canolbwyntio ar wella eich gallu i lwyddo mewn galwedigaeth arbennig - mae hyn yn ddelfrydol os oes gennych nod clir i anelu ato yn eich gyrfa ac os ydych eisiau ennill profiad gwerthfawr yn y gwaith. Mae rhai gyrfaoedd yn mynnu eich bod yn meddu ar gymhwyster proffesiynol, ond mewn achosion eraill, nid yw cymwysterau proffesiynol yn hanfodol; maent yn caniatáu ichi wella eich cymhwysedd yn eich maes ac yn eich helpu i ddringo'r ysgol yrfa.

## Graddau Atodol

Mae Gradd Atodol yn gyfwerth â blwyddyn derfynol cwrs gradd, gan roi cymhwyster lefel Gradd ichi. Fel mae'r enw yn awgrymu, mae'r cyrsiau hyn yn rhoi'r dewis i chi 'godi' cymhwyster sydd gennych eisoes, pa un a oes gennych Radd Sylfaen neu gymhwyster perthnasol arall, fel HND.

Mae gan bob cwrs ei ofynion mynediad ei hun, felly gwiriwch y cwrs y mae gennych ddi-ddordeb ynddo i weld beth yn union y bydd yn rhaid ichi feddu arno er mwyn ymgeisio. Hefyd, gwnewch yn siŵr eich bod yn gwirio eich cymhwysterau i gael cyllid parhaus.





# EICH CYNORTHWYO

## Tiwtoriaid Personol

Fel myfyriwr llawn amser, bydd gennych eich Tiwtor Personol. Byddant yn adolygu eich cynnydd academiaidd ac yn darparu cymorth, a chynnig arweiniad ac annogaeth i sicrhau eich bod yn cwblhau pob agwedd ar eich cwrs yn llwyddiannus.

### Y Ganolfan Ddysgu

Yn ogystal â llyfrau, cylchgronau, e-Lyfrau a DVDs, gallwch ddefnyddio cyfrifiaduron personol neu gysylltu eich dyfais eich hun â'n Wi-Fi rhad ac am ddim yn y Ganolfan Ddysgu. Bydd staff wrth law i'ch helpu i ddod o hyd i adnoddau a chael gafael ar wasanaethau eraill, fel llungopïo, lamineiddio a rhwymo.

### Canolfannau Addysg Uwch

Dyma le pwrpasol ar gyfer ein dysgwyr Addysg Uwch. Fe gewch yno gyfrifiaduron, manau trafod a soffas ar gyfer astudio'n dawel neu ymlacio. Mae ein hybiau ar gael ar gampysau dethol. Pam nad ewch yno i'w gweld yn ystod un o'n digwyddiadau agored?

## Cymorth ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol

Yn dilyn cadarnhad gan Gyllid Myfyrwyr Cymru/Lloegr, os oes gennych anhawster dysgu ac/neu anabled cofrestredig, gallwn ddarparu llawer o gymorth. Fe allai'r cymorth hwn gynnwys:

- Cymorth yn yr ystafell ddosbarth gan Gynorthwydd Cymorth Ychwanegol
- Sesiynau ychwanegol i gael help gydag aseiniadau a gwaith cwrs
- Help gan Weithiwr Cymorth Cyfathrebu (ar gyfer myfyrwyr byddar)
- Cymorth dyslecsia
- Defnyddio'r Ystafell Werdd
- Sesiynau ARROW i'ch helpu i wella eich sgiliau darllen a sillafu
- Defnyddio meddalwedd hygyrchedd, yn cynnwys hyfforddiant cychwynnol
- Trefniadau mynediad ar gyfer arholiadau

Os byddwch angen cymorth gallwch siarad â'ch Tiwtor Personol, neu cysylltwch â'r Cydgysylltydd Anghenion Dysgu Ychwanegol ar y campws.



## Cymorth Ilesiant

Mae eich diogelwch a'ch llesiant yn flaenoriaeth inni. Byddwn yn sicrhau eich diogelwch yn y coleg ac ar leoliadau gwaith, a byddwn yn eich cynorthwyo gydag anawsterau personol. Gallwch ddefnyddio ein gwasanaethau cwnsela a chaplaniaeth cyfrinachol, a hefyd gallwn eich rhoi mewn cysylltiad ag asiantaethau allanol a all eich helpu.

Os hoffech gael mwy o wybodaeth am y cymorth sylweddol a gynigiwn, cysylltwch â'n Gwasanaethau Dysgwyr ar eich campws lleol neu ewch i [www.coleggwent.ac.uk/cymorth](http://www.coleggwent.ac.uk/cymorth).

## Cymorth ariannol

Ceir mwy o wybodaeth am y grantiau a'r bwrsariau sydd ar gael ichi ar y dudalen nesaf.



# CANOLBWYNTIO AR GYLLID

Mae cwrs Addysg Uwch yn fuddsoddiad yn eich dyfodol. Ac er bod costau ynghlwm wrth ddysgu - naill ai'r amser a fuddsoddwch neu eich ffioedd dysgu - efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol, sy'n golygu y gallai gostio llai nag y meddyliwch.

Nid yw Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau'r trefniadau ar gyfer 2020/21 ymlaen. Ar gyfer myfyrwyr a fydd yn cychwyn ym mis Medi 2019 ymlaen, golyga hyn y gallai ffioedd dysgu godi ar gyfer blynyddoedd dilynol eu hastudiaeth yn unol â'r ffioedd dysgu uchaf cysylltiedig â chwyddiant a ganiateir gan Lywodraeth Cymru.

Byddwn yn rhoi gwybod i bob ymgeisydd a myfyriwr beth fydd lefel y ffioedd ar gyfer 2020/21 ac unrhyw gynnydd cysylltiedig â chwyddiant cyn gynted ag y cawn gadarnhad gan Lywodraeth Cymru, a byddwn yn cyhoeddi'r wybodaeth ddiweddaraf ar wefan y coleg.

## **Cyrsiau a achredir gan Brifysgol De Cymru, Prifysgol Metropolitan Caerdydd a Phrifysgol Aberystwyth:**

Mae Graddau Sylfaen, HNCs a HNDs a achredir gan y prifysgolion hyn yn £7,500 y flwyddyn\*.

## **Cyrsiau a achredir gan Brifysgol Caerwrangon:**

Mae Graddau Sylfaen a achredir gan y brifysgol hon yn £9,250 y flwyddyn\*

## **AHO (Addysg a Hyfforddiant Ôl-orfodol):**

Mae ffioedd dysgu cyrsiau AHO 2019/20 yn £875 am bob modiwl 20 credyd\* - fel arfer, byddwch yn astudio 60 credyd mewn blwyddyn.

## **Graddau atodol gan Brifysgol De Cymru:**

Mae Graddau Atodol wedi'u hachredu gan y brifysgol hon yn £9,000 y flwyddyn\*

## **Cymwysterau Cenedlaethol Uwch gan Pearson:**

Mae cymwysterau Cenedlaethol Uwch wedi'u hachredu gan Pearson yn amrywio o ran ffioedd, felly edrychwch ar y wybodaeth am y cyrsiau unigol ar ein gwefan.



### Costau ychwanegol

Efallai y bydd costau ychwanegol ynghlwm wrth eich cwrs - gallant fod yn orfodol neu'n ddewisol. Bydd y costau hyn yn ychwanegol at ffioedd dysgu a rhaid i'r myfyrwyr eu talu er mwyn iddynt allu cymryd rhan yn llwyr a chwblhau eu hastudiaeth. Bydd costau o'r fath yn berthnasol i offer, teithiau, lleoliadau ac archwiliadau'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS). Fe fydd gan bob cwrs gostau ychwanegol gwahanol a chânt eu nodi ar ein gwefan dan fanylion y cyrsiau.

\*Mae'r ffigyrau a'r wybodaeth yn gywir ar adeg eu hargraffu a gallant newid. Edrychwch ar wefan y coleg a gwefan Cyllid Myfyrwyr Cymru / Cyllid Myfyrwyr Lloegr i gael y wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi wneud cais.

# CANOLBWYNTIO AR GYLLID



**Wrth astudio addysg uwch, fe fyddwch yn wynebu dwy brif gost - ffioedd dysgu a chostau byw. Fodd bynnag, bydd cymorth ariannol ar gael ichi trwy gyfrwng benthyciadau (y bydd yn rhaid ichi eu talu'n ôl) a grantiau/ bwsariau (na fydd yn rhaid ichi eu talu'n ôl).**

## **Gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch llawn amser\*:**

Gall myfyrwyr sy'n astudio'u cwrs Addysg Uwch cyntaf, ac sydd fel arfer yn byw yng Nghymru, gael Benthyciad Ffioedd Dysgu o hyd at £9,250. Ni fydd y Benthyciad Ffioedd Dysgu yn seiliedig ar incwm yr aelwyd. Yn ychwanegol at y benthyciad hwn, gallwch gael Cymorth Cynhaliaeth (help gyda chostau byw). Gall myfyrwyr cymwys nad ydynt yn byw gartref (y tu allan i Lundain) gael £9,000 y flwyddyn, sef cymysgedd o grant a benthyciad. Bydd swm y grant yn ddibynnol ar incwm eich aelwyd.

D.S. Os ydych wedi astudio cwrs Addysg Uwch o'r blaen, mae'n bwysig ichi ddeall y gallai hyn effeithio ar eich cymhwysra i gael cymorth. Ewch i [www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrwyr.cymru.co.uk) a darllenwch yr adran 'Rheolau Astudio Blaenorol'.

## **Gwybodaeth ar gyfer myfyrwyr Addysg Uwch rhan amser\*:**

Gall myfyrwr sy'n astudio yng Nghymru wneud cais am fenthyciad nad yw'n ddibynnol ar brawf modd o hyd at £2,625 i dalu eu ffioedd blynyddol. Rhaid i'r

myfyrwr astudio ar ddwysedd o 25% o leiaf i fod yn gymwys e.e. bydd myfyrwr llawn amser yn cwblhau 120 credyd mewn blwyddyn, felly byddai'n rhaid i fyfyrwr rhan amser gwblhau o leiaf 30 credyd y flwyddyn. Gall myfyrwr wneud cais am gymorth gyda chostau byw blynyddol - hyd at £5,111.25. Bydd swm y grant a'r benthyciad a gewch yn ddibynnol ar nifer yr oriau y byddwch yn astudio ac incwm eich aelwyd.





Bydd angen ichi wneud cais am gyllid cyn cychwyn ar eich cwrs. Gorau po gyntaf y gwnewch hyn; a chofiwch, bydd angen ichi ailgyflwyno cais am gyllid bob blwyddyn academaidd.

Bydd modd ichi gael cyllid ychwanegol os oes gennych oedolion neu blant sy'n ddibynol arnoch yn ariannol. Gall y cyllid ychwanegol hwn gynnwys:

- Grant Oedolion Dibynnol
- Grant Gofal Plant
- Lwfans Dysgu i Rien

### Lwfans i Fyfyrrwyr Anabl

Os oes gennych anabledd, cyflwr iechyd hirdymor, cyflwr iechyd meddwl neu anhawster dysgu penodol, efallai y byddwch yn gymwys i gael cymorth ariannol. Grantiau sy'n helpu i dalu am y costau ychwanegol hanfodol y gallech fod yn eu hwynebu o ganlyniad uniongyrchol i'ch anabledd yw Lwfansau i Fyfyrrwyr Anabl. Ceir mwy o wybodaeth ar wefan Cyllid Myfyrrwyr Cymru.

Gellir gweld manylion llawn am yr holl gymorth ariannol sydd ar gael a sut i wneud cais ar wefan Cyllid Myfyrrwyr Cymru [www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk](http://www.cyllidmyfyrrwycymru.co.uk) and Student Finance England website [www.gov.uk/student-finance](http://www.gov.uk/student-finance)



\*Mae'r ffigyrau a'r wybodaeth yn gywir ar adeg eu hargraffu a gallant newid. Edrychwch ar wefan Cyllid Myfyrrwyr Cymru/Cyllid Myfyrrwyr Lloegr i gael y wybodaeth ddiweddaraf cyn i chi wneud cais.



# SUT I WNEUD CAIS AM ADDYSG UWCH

**Ar ôl ichi benderfynu pa gwrs yr hoffech ei astudio, mae gwneud cais yn hawdd:**

- Ar-lein ar [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)\*
- Ar y ffôn 01495 333777 (Croesawn alwadau yn y Gymraeg)
- Wyneb yn wyneb yn unrhyw un o'n pum campws


## **Cyngor ac arweiniad ar gyrsiau**

Byddwn yn eich gwahodd i gyfarfod â thiwtor pwnc a fydd yn rhoi mwy o fanylion ichi am eich cwrs ac yn ateb unrhyw gwestiynau sydd gennych.

Byddwch yn cael gwahoddiad i gofrestru a chynefino, yn hwyr ym mis Awst neu ddechrau mis Medi fel arfer. Byddwn yn anfon llythyr atoch yn nes at yr amser i roi gwybod ichi pryd yn union y bydd angen ichi ddod draw a beth fydd angen ichi ddod gyda chi. Cewch fwy o wybodaeth am eich cwrs gan y staff a fydd yn eich dysgu, cewch gyfarfod â rhai eraill sy'n dilyn eich cwrs a chewch ymgyfarwyddo â champws y coleg. Dylech ddisgwyl bod yn y coleg am hyd at ddeuddydd yn cofrestru cyn cychwyn ar eich cwrs.



\*Sylwer: wrth wneud cais ar gyfer cyrsiau Prifysgol Caerwrangon, rhaid defnyddio trefniadau ymgeisio UCAS



Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)



# ALLWEDD AR GYFER MANYLION Y CYRSIAU A’N PARTNERIAID

Ar y tudalennau canlynol fe welwch nifer o fyrfoddau a ddefnyddir i nodi ar ba gampws y cynhelir y cyrsiau, y dyfarniad, sut y byddwch chi’n astudio a’r corff sy’n achredu’r cwrs. Dyma arweiniad ar y symbolau:

## Campysau:

PDBG / Parth Dysgu Blaenau Gwent  
CK / Campws Crosskeys  
Cas / Campws Dinas Casnewydd  
CB / Campws Brynbuga  
PDT / Parth Dysgu Torfaen

## Sut y byddwch yn astudio:

LIA / Llawn amser  
RhA / Rhan amser

## Cyrrff achredu\*:

PA / Prifysgol Aberystwyth  
CG / Coleg Gwent  
P / Pearson  
PMC / Prifysgol Metropolitan Caerdydd  
PDC / Prifysgol De Cymru  
PC / Prifysgol Caerwrangon  
l’w Gadarnhau / l’w Gadarnhau

## Dyfarniad:

BA / Baglor yn y Celfyddydau  
Tyst AU / Tystysgrif AU  
GS / Gradd Sylfaen  
HNC / Tystysgrif Genedlaethol Uwch  
HND / Diploma Cenedlaethol Uwch  
Proff / Cymhwyster proffesiynol  
BSc Atodol / Gradd Baglor mewn Gwyddoniaeth Atodol

Mae Coleg Gwent yn gwneud pob ymdrech i sicrhau bod holl ddeunyddiau cyhoeddusurwydd y coleg yn gywir adeg eu hargraffu. Fodd bynnag, yn ystod y flwyddyn efallai y bydd y coleg yn newid manylion y cyrsiau, yn cynnwys y cyrff dyfarnu, a theitlau a lleoliadau’r cyrsiau. Mae’r coleg yn cadw’r hawl i dynnu cyrsiau’n ôl os penderfynir nad yw’n ymarferol eu cynnal mwyach.



\*Gellir gweld telerau ac amodau mewn perthynas â chymwysterau gwahanol gyrrff dyfarnu o dan bolisiau a gweithdrefnau AU ar wefan y coleg.



# IECHYD CEFFYLAU AC ANIFEILIAID

**Oes oes gennych angerdd tuag at anifeiliaid, beth am ddilyn gyrfa yn y maes? Cymerwch yr awenau ac astudiwch un o'n cyrsiau'n ymwneud â cheffylau neu anifeiliaid ar ein campws gwledig hardd ar safle Brynbuga.**

Mae pob cyflogwr yn chwilio am brofiad, a chewch ddigonedd o hwnnw ar ein graddau sylfaen mewn gofal anifeiliaid yng Nghampws Brynbuga.

Mae gennym gyrsiau sydd wedi hen ennill eu plwyf gyda Phrifysgol De Cymru a Phrifysgol Aberystwyth. Felly, ni waeth pa gwrs a ddewiswch, gallwch gael gafael ar yr holl gyfleusterau y byddech yn disgwyl eu cael yn y diwydiant hwn.

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau'n ymwneud ag anifeiliaid a chyrsiau milfeddygol yn gweithio yn y ganolfan gofal anifeiliaid bach, sy'n gartref i lu o wahanol anifeiliaid, o gwningod a moch cwta i rywogaethau mwy egsotig fel ymlusgiaid ac asynnod, a hefyd yn ein canolfan ailgartrefu cathod, Blue Cross.

Bydd myfyrwyr sy'n dilyn cyrsiau'n ymwneud â cheffylau'n gallu gwneud defnydd llawn o'n cyfleusterau stablau a'n hysgolion dan do ac awyr agored, felly byddwch yn dysgu sut i reoli cheffylau a gofalu amdanynt, yn ogystal

ag archwilio'u hymddygiad a dysgu am y diwydiant ar y campws.

Byddwch yn cael eich dysgu gan ddarlithwyr arbenigol a chanddynt brofiad a gwybodaeth eang yn eu sector, felly bydd modd iddynt roi cyngor ichi ynghylch sut i ddod o hyd i swydd ar ôl ichi raddio.



**£21,164  
£11.00/AWR**

**CYFARALEDD  
CYFLOGAU  
NODWEDDIADOL YN  
Y DIWYDIANT HWN**



Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)



## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawm amser/Rhan-amser
Iechyd a Lles Anifeiliaid	GS	2	CB	PDC	LIA
Nyrsio Milfeddygol (gan gynnwys oriau profiad gwaith)	GS	3	CB	PDC	LIA
Astudiaethau Ceffylau	GS	2	CB	PA	LIA
Astudiaethau Ceffylau (Yn amodol ar ddilysiad)	BSc Atodol	1	CB	PA	LIA
Iechyd a Lles Anifeiliaid	BSc Atodol	1	CB	PDC	LIA
Nyrsio Milfeddygol	BSc Atodol	2	CB	PDC	LIA

### Beth nesaf?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio am flwyddyn arall ar sail amser llawn neu ran-amser gyda'r brifysgol o'ch dewis i godi at Radd Baglor llawn, neu fe allech ystyried eich Gradd Sylfaen fel cymhwyster ar ei ben ei hun a chwilio am waith mewn meysydd fel ymarfer milfeddygol, ymddygiad a seicoleg anifeiliaid.

### Oeddech chi'n gwybod?

Gweithwyr Gofal Anifeiliaid, Milfeddygon a Nyrsys Milfeddygol yw'r swyddi cyflymaf eu twf yn y sector Bwyd a Ffermio.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru



# ADEILADU A'R AMGYLCHEDD ADEILEDIG

**Cynlluniwch ac adeiladwch eich dyfodol eich hun yn y byd adeiladu.**

Gyrfa yn y maes adeiladu yw eich cyfle chi i adael eich ôl ar gymdogaethau'r dyfodol, a bydd ein cymwysterau lefel uchel yn rhoi ichi'r sgiliau, y wybodaeth a'r profiad yn y diwydiant y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt.

Os hoffech gyfrannu at newid nennlinellau, adeiladu pontydd bendigedig neu ddylanwadu ar bensaernïaeth, cewch ddysgu'r technegau a'r egwyddorion diweddaraf i gyd er mwyn eich paratoi ar gyfer gwaith yn ein HNC mewn Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig - does dim terfyn.

## Beth nesaf?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio'n llawn amser neu ran-amser am flwyddyn arall gyda'ch prifysgol er mwyn cael Gradd Baglor lawn, neu fe allech ystyried eich Gradd Sylfaen fel cymhwyster ar ei ben ei hun a chwilio am waith mewn meysydd fel peirianeg sifil, rheoli prosiectau; seilwaith, pensaernïaeth neu waith gosod trydanol.


## Oeddech chi'n gwybod?

Disgwylir y bydd merched yn llenwi 1 swydd o bob 4 yn y maes Adeiladu erbyn 2020.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawn amser/Rhan-amser
Peirianeg Sifil	HND	2	Cas	Pearson	RhA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HND	2	Cas	Pearson	RhA
Adeiladu a'r Amgylchedd Adeiledig	HNC	2	Cas	Pearson	RhA
Peirianeg Sifil	HNC	2	Cas	Pearson	RhA



**£25,339**  
**£13.17/AWR**

**CYFLOG  
NODWEDDIADOL AR  
GYFARTALED D YN Y  
DIWYDIANT HWN**



# BUSNES, RHEOLI A THWRISTIAETH

**Dangoswch i'r byd eich angerdd at fusnes neu gadewch i'ch gyrfa esgyn fry yn y maes twristiaeth.**

Yn y byd modern sydd ohoni, mae busnes a masnach yn llywodraethu bron pob agwedd ar ein bywydau - felly, mae pob busnes a sefydliad angen arweinwyr cryf a rheolwyr craff. Pa un a fyddwch yn astudio'r maes busnes yn gyffredinol neu'n arbenigo mewn sector arbennig, cewch eich ysbrydoli gan ein timau addysgu ardderchog a fydd yn defnyddio'u profiad eang yn y diwydiant i'ch dysgu.

Neu, fe allech weithio yn y busnes Teithio a Thwristiaeth - un o'r meysydd mwyaf cyffrous a llewyrchus yn y byd.



Fe allech helpu rhywun i ddod o hyd i wyliau ei freuddwydion, teithio'r byd fel aelod o Griw Caban, helpu pobl i fwynhau partis mewn lleoliadau heulog, neu symud yn eich blaen trwy fusnes nes dod yn uwch-reolwr.

Mae'r hyn a ddysgw'n i chi'n berthnasol, yn gymhwysol ac yn gysylltiedig â'r diwydiant, felly cewch ennill y sgiliau y mae cyflogwyr yn chwilio amdanynt mewn ymgeiswyr. Mae ein pwyslais cryf ar brofiad cysylltiedig â gwaith yn golygu y cewch ennill sgiliau ymarferol y gallwch eu rhoi.

---

## Beth nesaf?

Os dewiswch astudio Gradd Sylfaen, efallai y bydd gennych y dewis i astudio'n llawn amser am flywyddyn arall gyda'ch prifysgol er mwyn cael Gradd Baglor lawn, neu fe allech symud yn eich blaen yn syth at waith. Gan ddibynnu ar eich cwrs, fe allai'r posibilïadau gynnwys rheoli, Adnoddau Dynol, marchnata, cyllid, masnachu, cynrychiolydd gwyliau, perchennog busnes ac yswiriant.

---

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae rhai o'r cyflogau uchaf i'w cael yn y sector hwn; fe allai cyfrifydd ennill oddeutu £70,000 y flywyddyn.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

---

## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawm amser/Rhan-amser
Astudiaethau Busnes	GS	2	PDT neu PDBG	PDC	LIA
Rheoli Twristiaeth a Theithio Rhyngwladol	HND	2	CK	Pearson	LIA
AAT	Proff	1	Cas	PDC	RhA
CILEX	Proff	1	Cas	Pearson	RhA
Rheoli Manwerthu	GS	2	Cas	PDC	LIA
Y Gadwyn Gyflenwi a Logisteg (Yn amodol ar ddilysiad)	GS	2	Cas	PDC	LIA
Tystysgrif Astudiaethau	Tyst AU	1	Cas	PDC	LIA

**£31,361**  
**£16.30/AWR**

**CYFLOG  
NODWEDDIADOL AR  
CYFARTALED D YN Y  
DIWYDIANT HWN**



“

*Rydw i'n credu bod coleg yn well na phrifysgol. Mae'r dosbarthiadau'n llai, felly mae modd ichi ddod i adnabod eich tiwtor yn well, a chael cymorth. Yr awyrgylch yw'r peth gorau am astudio yma; mae'r staff a'm cyd-fyfyrrwyr mor gyfeillgar, ac mae'r naill yn helpu'r llall.* ”

**Brian Beni**  
**24, Gradd Sylfaen mewn**  
**Rheoli Manwerthu**





# Y DIWYDIANNAU CREADIGOL

## O'r goleuadau llachar i'r llifolau...

Mae'r diwydiannau creadigol yn tyfu'n gyflymach nag unrhyw faes yn economi'r DU - newyddion gwyd i radddegion talentog sy'n danbaid dros y celfyddydau a dylunio.

Mae ennill bywoliaeth trwy wneud swydd greadigol yn sefyllfa ddymunol iawn i fod ynddi. Mae'n eithaf prin bod â swydd lle y gallwch wneud rhywbeth yr ydych yn danbaid drosto, felly os ydych

yn llwyddo i adeiladu gyrfa yn y diwydiannau creadigol, mae'n debygol iawn y byddwch yn fodlon dros ben yn eich swydd.

Mae ein stiwdios eang ar gyfer y celfyddydau, dylunio, ffasiwn, y cyfryngau, ffotograffiaeth a pherfformio yn llefydd delfrydol ichi eich mynegi eich hun, arbrofi gydag amrywiaeth o dechnegau a pherffeithio eich arbenigaeth.

## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawm amser/Rhan-amser
Celf a Dylunio Gemau	GS	2	PDBG	PDC	LIA
Ffotograffiaeth	GS	2	CK	PDC	LIA
Ffotograffiaeth (Yn amodol ar ddilysiad)	BA	3	CK	PMC	LIA
Celfyddydau Perfformio	GS	2	CK	PDC	LIA
Ffasiwn a Thecstilau	HND	2	CK	Pearson	LIA
Y Diwydiannau Creadigol (Celfyddydau) (Technoleg Cerddoriaeth Boblogaidd)	GS	2	CK	PDC	LIA
Y Diwydiannau Creadigol (Gwyddoniaeth) (Technoleg Cerddoriaeth Boblogaidd)	GS	2	CK	PDC	LIA
Darlunio	GS	2	CK	PDC	LIA
Cynhyrchu'r Cyfryngau	GS	2	CK	PDC	LIA
Colur Arbenigol	HNC	1	CK	Pearson	LIA
Colur Arbenigol	HND	1	CK	Pearson	LIA



## Beth nesaf?


Gall ein cyrsiau creadigol eich paratoi ar gyfer amrywiaeth eang o yrfaoedd a chyfleoedd yn y diwydiannau creadigol hynod gystadleuol. Gall y dewisiadau gynnwys y cyfryngau, cerddoriaeth, perfformio, ffotograffiaeth, dylunio creadigol, ffasiwn, gemau, a ffilm a theledu.

## Oeddech chi'n gwybod?

Mae mwy na 7 swydd o bob 10 yn y diwydiant hwn yn swyddi hunangyflogedig.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

**£30,726**  
**£15.97/AWR**  
**CYFLOG**  
**NODWEDDIADOL AR**  
**GYFARTALED D YN Y**  
**DIWYDIANT HWN**



“Dewisais astudio yn y coleg gan ei fod yn rhatach na mynd i'r brifysgol, ac yn fwy cyfleus i mi. Mae'r tiwtoriaid wedi bod yn hynod gymwynasgar a chefnogol; mae'n hawdd siarad â nhw pan rydw i angen unrhyw beth. Chi sy'n dewis beth yr ydych eisiau ei astudio ar y cwrs; mae'r flwyddyn gyntaf a'r ail flwyddyn yn cynnwys yr un cyrsiau, felly gallwch weld faint o gynnydd yr ydych yn ei wneud.”

**Jack Samuel**  
**19, Gradd Sylfaen mewn**  
**Cynhyrchu'r Cyfryngau**

# IECHYD A GOFAL CYHOEDDUS

## Gofalwch am eich dyfodol.

Mae'r sector gofal yn cynnig dewis amrywiol o yrfaeodd a all fod yn hynod o werth chweil a chael effaith gadarnhaol ar fywydau pobl eraill.

Gall ein hamrywiaeth o gyrsiau gofal iechyd eich paratoi ar gyfer gyrfa lwyddiannus, pa un a fyddwch yn gweithio'n uniongyrchol gyda chleifion, yn arwain tîm er mwyn darparu gofal o'r radd flaenaf, neu'n dylanwadu ar bolisiâu yn genedlaethol ac yn rhanbarthol.

Pe bai'n well gennych ddilyn gyrfa yn y maes gofal plant, gall ein cwrs astudiaethau plentyndod roi ichi'r sgiliau, yr wybodaeth a'r profiad ymarferol y byddwch eu hangen mewn

sector heriol, ond hynod amrywiol a gwerth chweil.

Gan fod iechyd y corff a'r meddwl yn bwnc mor amlwg yn ein cymdeithas heddiw, ac yn cael ei drin a'i drafod mor aml, bydd ein graddau sylfaen yn rhoi ichi'r ddealltwriaeth i ymuno â'r sgwrs.

## Beth nesaf?

Efallai y bydd gennych y dewis i astudio'n llawn amser am flwyddyn arall gyda'ch prifysgol er mwyn cael Gradd Baglor lawn, neu fe allech ystyried eich Gradd Sylfaen fel cymhwyster ar ei ben ei hun a chwilio am waith mewn meysydd fel gwaith ieuencid, gwaith cymdeithasol, ysbytai, gofal plant neu therapi.

## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfnarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawn amser/Rhan-amser
Iechyd a Llesiant Cymunedol	GS	2	PDBG neu PDT	PDC	LIA
Astudiaethau Plentyndod	GS	2	CK neu PDBG	PDC	LIA
Iechyd Meddwl	GS	2	CK	PDC	LIA
Seicoleg	GS	2	CK	PDC	LIA
Camddefnyddio Sylweddau	Tyst AU	LIA / 2 flynedd RhA	PDT	PDC	LIA



**£27,243**  
**£14.16/AWR**  
**CYFLOG**  
**NODWEDDIADOL**  
**AR GYFARTALED**  
**YN Y DIWYDIANT**  
**HWN**



---

## Oeddech chi'n gwybod?

Gall ymgynghorydd gofal iechyd ennill cymaint â £100,000 y flwyddyn!  
Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

---

# Y DYNIAETHAU AC ADDYSG

**A ydych yn hoffi cadw'r ochr iawn i'r gyfraith? Neu efallai eich bod eisiau gwneud gwahaniaeth i blant trwy weithio yn y maes addysgu?**

Os ydych yn danbaid dros gadw trefn ac amddiffyn rhyddid a hawliau, ac yn dda am ddatrys anghydfodau, astudiwch ein gradd sylfaen mewn Cyfiawnder Troseddol. Mae gyrfa yn y gyfraith yn berffaith i chi os oes gennych natur ddigynnwrf a thra manwl, ac os yw buddiannau eich cleientiaid yn cael y lle blaenaf. Trwy hyfforddi am swydd yn y sector hwn, gallwch arbenigo mewn meysydd fel eiddo, anafiadau, a llawer mwy.

“

*Nid yw prifysgolion yn cynnig llawer o ddewisiadau rhan amser, felly fe weithiodd y cwrs hwn yn dda i mi ac i fy ngofal plant. Yn ogystal, mae'n agos i'r cartref. Mae yna griw clos ohonom yn y dosbarth - mae hyn yn eich gwneud yn fwy o unigolyn yn hytrach nag yn un ymhlith cannoedd mewn darlithfa. Rydw i'n teimlo'n llawn cymhelliant a chyffro wrth fynd i'r afael â'm gwaith. Wnes i erioed deimlo felly yn y brifysgol.*”

**Hannah Williams**  
**23, AHO**

Gall gyrfa addysgu fod yn gyffrous ac yn werth chweil, yn ogystal â chynnig amrywiaeth a chyfle ichi wella rhagolygon pobl eraill. Bydd ein cyrsiau'n eich galluogi i addysgu rhai dros 16 oed, felly bydd angen ichi fedru cyfathrebu'n dda gyda myfyrwyr o bob oed a gallu, gan fod proffil darpar fyfyrwyr yn eang dros ben. Fe allech fynd yn eich blaen i addysgu cyrsiau academiaidd i blant sydd wedi gadael yr ysgol ac sy'n dymuno mynd i'r brifysgol, oedolion sydd eisiau ailhyfforddi a newid eu gyrfa, neu bobl sy'n dychwelyd i'r ystafell ddosbarth ar ôl gadael addysg ers sawl blwyddyn.





## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawn amser/Rhan-amser
AHO	Tyst AU	2	PDBG	PDC	RhA
Cyfiawnder Troseddol	GS	2	CK	PDC	LIA



### Beth nesaf?

Bydd ein cyrsiau addysgu yn eich galluogi i addysgu mewn addysg ôl-16 - fe allai hyn gynnwys colegau, lleoliadau chweched dosbarth, addysg i oedolion ac addysg gymunedol, darparwyr hyfforddiant seiliedig ar waith a lleoliadau dysgu troseddwy. Ni fydd ein cyrsiau'n rhoi statws athro cymwysedig ichi - sef rhywbeth y mae ei angen ar gyfer addysgu cynradd ac uwchradd.



### Oeddech chi'n gwybod?

Disgwylir gweld twf o 13% mewn swyddi yn sector y gyfraith a gwasanaethau cyfreithiol (2281 o swyddi newydd) erbyn 2022.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru



# GWYDDONIAETH, PEIRIANNEG A THECHNOLEG

## Canfod y fformiwla ar gyfer eich llwyddiant

Mae gwyddoniaeth o'n cwmpas ni mewn bywyd bob dydd, o symudiad ceir, y feddyginiaeth rydym yn ei chymryd i siarad â Siri ar ein ffonau symudol. Mae datblygiadau technolegol a gwyddonol yn newid y byd rydym yn byw ynddo yn gyson; gallech weithio mewn deallusrwydd artifisial a hyd yn oed gyda robotiaid!

Gellir dadlau mai Technoleg Ddigidol yw'r sector sydd yn tyfu ac yn esblygu gyflymaf; does dim digon o gyflogeion yn meddu ar y sgiliau priodol i lenwi'r holl swyddi, felly mae cyflogwyr o hyd yn chwilio am recriwtiaid posib gyda'r sgiliau hyn.

Byddwch yn cael profiad ymarferol yn ein labordai gwyddoniaeth pwrpasol, yn llawn offer safon diwydiant, ac yn ogystal â darlithwyr arbenigol byddwch yn cael cefnogaeth gan dechnegwyr gyda chyfoeth o brofiad diwydiannol.

## Dyfeisiwch eich dyfodol

Mae peirianwyr yn hanfodol i fywyd bob dydd, o'r ffonau rydym yn eu defnyddio, y diarglydd rydym yn ei gwisgo i'r awyrennau rydym yn teithio ynddynt. Mae'r sector yn amrywiol, medrus ac yn talu'n dda. Mae'r gofyn am beirianwyr yn uchel, yn enwedig peirianwyr sydd yn ferched, felly mae swyddi ar gael o hyd.

Mae peirianwyr mecanyddol yn dylunio a chynnal cydrannau a systemau gan ddefnyddio eu gwybodaeth am ffiseg a mathemateg, ac yn gweithio gyda deunyddiau uwch megis ffeibr carbon a deunyddiau cyfansawdd.

O ddarnau cydrannol bychan i rwydweithiau neu gridiau trydanol cyfan; mae angen trydan ar gyfer busnesau, cyfathrebu ac adloniant. Os ydych chi'n rhoi sylw at fanylion ac yn wybodus ynghylch yr egwyddorion, peirianeg drydanol yw'r un i chi.



## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawm amser/Rhan-amser
Peirianeg Fecanyddol	HNC	2	CK	Pearson	RhA
Peirianeg Electronig a Thrydanol	HNC	2	CK	PDC	RhA
Peirianeg Electronig a Thrydanol	HND	2	CK	PDC	LIA
Peirianeg Fecanyddol	HND	2	CK	Pearson	RhA
Cyfrifiadura	HND	2	CK neu PDBG	PDC	LIA
Cyfrifiadura	HND	2	Cas	Pearson	LIA
Gwyddor Ffforensig a Dadansoddol	GS	2	PDT	PDC	LIA

### Beth nesaf?

Gall ein cyrsiau gwyddoniaeth arwain at lawer o opsiynau gyrfaoel yn cynnwys gwyddor fforensig, cyfrifiadureg fforensig, technegydd labordy neu ymchwil.

Os byddwch yn dilyn llwybr technoleg gallwch symud at feysydd megis datblygiad gwe, cymorth seilwaith TG neu rwydwaith, dadansoddi data neu raglennu cyfrifiadurol, yn ogystal â chyflogaeth yn y sector diogelu TG.

**£29,283**

**£15.22/AWR**

**CYFLOG**

**NODWEDDIADOL**

**AR GYFARTALEDD YN**

**Y DIWYDIANT HWN**



### A oeddech chi'n gwybod?

Bydd angen 8,000 o beirianwyr yng Nghymru erbyn 2022.

Ffynhonnell: [Gyrfa Cymru](#)





# CHWARAEON A GWASANAETHAU CYHOEDDUS

**Dilynwch ôl traed eich arwyr chwaraeon, neu gwarchodwch ein cymunedau gyda swydd mewn gwasanaethau cyhoeddus.**

O chwaraeon ar lawr gwlad yn y gymuned i gystadleuaeth ar lefel elitaidd, mae hyfforddi yn hanfodol i ddatblygiad ffitrwydd, strategaeth a seicoleg chwaraeon. Byddwch yn mynd ar gyfres o leoliadau gwaith er mwyn rhoi profiad ymarferol i chi mewn rôl chwaraeon; byddwch yn ennill agwedd seiliedig ar dystiolaeth at hyfforddi, yn ogystal â datblygu eich dealltwriaeth dechnegol.

## Beth nesaf?

Efallai bydd gennych yr opsiwn i astudio am flwyddyn ychwanegol yn llawn amser yn y brifysgol o'ch dewis er mwyn derbyn Gradd Faglor lawn, neu gallwch gymryd eich Gradd Sylfaenol neu Ddiploma Cenedlaethol Uwch (HND) fel cymhwyster annibynnol a chwilio am waith mewn meysydd megis datblygiad chwaraeon, hyfforddi, y lluoedd arfog neu wasanaethau cyhoeddus.

## A oeddech chi'n gwybod?

Mae dros 600,000 o bobl y gweithio o fewn chwaraeon a ffitrwydd ar draws y du mewn dros 230,000 O sefydliadau gwahanol.

Ffynhonnell: Gyrfa Cymru

Mae'r Gwasanaethau Cyhoeddus yn sail i'n cymunedau, ac mae'r rheiny sy'n dilyn gyrfa mewn un o'r gwasanaethau mewn lifrai neu wasanaeth heb lifrai yn chwarae rhan bwysig o fewn cymdeithas ac yn gwneud gwahaniaeth gwirioneddol i fywydau eraill. Byddwch yn mynd i'r afael â holl agweddau gwasanaethau cyhoeddus o reoli pobl a chymhelliant i effaith deddfwriaeth ar gymdeithas.



**£26,726**  
**£13.89/AWR**

**CYFLOG**  
**NODWEDDIADOL**  
**AR GYFARTALEDD**  
**(CYMWYS) YN Y**  
**DIWYDIANT HWN**

Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)



## Beth allwch chi ei astudio?

Cwrs	Dyfarniad	Hyd y cwrs	Campws	Corff dyfarnu/dilysu	Llawm amser/Rhan-amser
Hyfforddi a Datblygu Chwaraeon	GS	2	CK neu CB	PDC	LIA
Gwasanaethau Cyhoeddus ac Argyfwng	HND	2	CB	PDC	LIA
Cyfilyru, Adfer a Thyllino Chwaraeon (SCRAM) (Yn amodol ar ddilysiad)	GS	2	CB/CK	PMC	LIA



# EIN CAMPYSAU

1. Parth Dysgu Blaenau Gwent
2. Campws Dinas Casnewydd
3. Campws Crosskeys
4. Campws Pont-y-pŵl
5. Campws Brynbuga
6. **NEWYDD ar gyfer Medi 2020** - Parth Dysgu Torfaen

Yn cyflwyno...**Parth Dysgu Torfaen.**

Dyma gartref yr holl addysg Safon Uwch cyfrwng Saesneg yn Nhorfaen. Bydd y ganolfan hon yng Nghwmbrân hefyd yn darparu ystod o gyrsiau galwedigaethol a chymwysterau lefel prifysgol.

Wedi'i leoli gerllaw Morrisons, bydd Parth Dysgu Torfaen yn hawdd i'w gyrraedd ar drafnidiaeth gyhoeddus a bydd maes parcio ar y safle. Yn ogystal â'r 25 o bynciau a gynigir, bydd yno hefyd ffreutur, llyfrgell, labordai gwyddoniaeth, stiwdio gelf a neuadd berfformio.



**Cewch wybod mwy yn:**

[www.coleggwent.ac.uk/campysau](http://www.coleggwent.ac.uk/campysau)

\*Adroddiad ar Ddeilliannau Dysgwyr Adran Addysg a Sgiliau Llywodraeth Cymru 2017/18

Ymgeisiwch ar-lein nawr [www.coleggwent.ac.uk/au](http://www.coleggwent.ac.uk/au)  
studentrecruitment@coleggwent.ac.uk | 01495 333777 (Croesawn alwadau yn Gymraeg)

